# Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu 2024 i 2025

## Cais am Dystiolaeth

Mae'r Cais am Dystiolaeth hwn yn dechrau ar 14 Tachwedd 2024

Daw'r Cais am Dystiolaeth hwn i ben ar 9 Ionawr 2025

Mae’r Cais am Dystiolaeth hwn hefyd ar gael yn:

https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/independent-sentencing-review-2024-to-2025

https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/independent-sentencing-review-2024-to-2025-cfe

# Cynnwys

Ynghylch y Cais am Dystiolaeth hwn – 3

Rhagair – Y Gwir Anrhydeddus David Gauke – 4

Canllaw - 5

Cylch Gorchwyl – 6

Themâu – 7

Amdanoch chi – 15

Manylion cyswllt – 16

Cyfrinachedd – 17

Data personol – 18

Asesiad o Effaith – 21

Yr Iaith Gymraeg - 22

## Ynghylch y Cais am Dystiolaeth hwn

| | |
|---|---|
| **At:** | Bwriad y cais am dystiolaeth hwn yw casglu tystiolaeth fel rhan o'r Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu. Mae'r Adolygiad yn croesawu ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y maes hwn. |
| **Hyd:** | O 14/11/2024 i 9/01/2025 |
| **Ymholiadau (gan gynnwys ceisiadau am y papur mewn fformat arall) i:** | Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder<br>102 Petty France<br>Llundain SW1H 9AJ<br>E-bost: SentencingReview2024-25@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Byddwch cystal â defnyddio'r porth ar-lein i ymateb.<br>https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/independent-sentencing-review-2024-to-2025-cfe<br>Os nad yw hwn ar gael i chi, anfonwch ymatebion drwy e-bost neu drwy'r post. Gweler y manylion cyswllt uchod. |

# Rhagair – Y Gwir Anrhydeddus David Gauke

Mae poblogaeth y carchardai yng Nghymru a Lloegr wedi dyblu dros y 30 mlynedd diwethaf. Bellach mae gennym y gyfradd garcharu uchaf o unrhyw wlad yng Ngorllewin Ewrop a disgwylir i boblogaeth y carchardai barhau i gynyddu pedair mil a hanner o droseddwyr y flwyddyn. Nid yw'r cyflenwad o leoedd carchar newydd wedi cadw i fyny â'r cynnydd yn y galw, ac am y deunaw mis ar ôl Chwefror 2023, roedd ystad y dynion yn gweithredu ar gapasiti o fwy na 99%.

Yn ystod haf 2024, daeth y pwysau hyn â'r system carchardai i fod o fewn dyddiau i fod ar ei gliniau, gan orfodi'r Llywodraeth i gyflwyno mesurau i ryddhau rhai carcharorion yn gynnar. Roedd hyn yn gweithredu fel mesur i leddfu’r pwysau, gan ryddhau capasiti yn y tymor byr gan alluogi'r system gyfiawnder troseddol i barhau i weithredu, ond nid yw wedi darparu ateb hirdymor i heriau poblogaeth gynyddol yn y carchardai a chyfraddau uchel o aildroseddu.

Mae yna lawer o ffactorau sydd wedi cyfrannu at hyn, ond mae'r ffaith bod hyd dedfryd o garchar ar gyfartaledd bron i 21 mis, sydd wedi cynyddu o tua 13 mis 20 mlynedd yn ôl, heb os wedi cael effaith ddwys.

Mae adeiladu carchardai yn costio symiau enfawr o arian trethdalwyr, ac ni allwn adeiladu ar gyfradd ddigon cyflym i gadw i fyny â'r galw presennol. Mae angen i ni edrych yn sylfaenol eto ar y polisi dedfrydu os ydym am gael rheolaeth dros boblogaeth y carchardai. Bydd carchardai bob amser yn chwarae rhan allweddol yn ein system gyfiawnder, ac i lawer o droseddau, dyna yw’r unig ateb, ond mae'n rhaid i ni wynebu realiti y bydd y mwyafrif llethol o droseddwyr yn cael eu rhyddhau. Mae angen i ni sicrhau, pan fydd hynny'n digwydd, fod gennym system brawf sydd â'r adnoddau llawn i'w rheoli, a bod y bobl hynny yn llai tebygol o aildroseddu a chreu mwy o ddioddefwyr troseddau. Mae angen i ni hefyd edrych ar y meysydd lle mae'r system bresennol yn methu, fel mynd i'r afael â’r troseddwyr mwyaf cyson.

Mae'r adolygiad hwn yn gyfle i edrych ar sut y gallwn wneud y system yn well ac yn fwy effeithiol, gan edrych ar awdurdodaethau eraill sydd wedi wynebu heriau tebyg, ac ar sut y gallwn fanteisio ar dechnolegau newydd i reoli troseddwyr y tu allan i'r carchar.

Ni ddylid tanbrisio maint yr her hon, ond ni fydd yr adolygiad yn cilio oddi wrth y cwestiynau anodd. Rwy'n annog pawb sy'n ymateb i'r cais am dystiolaeth hwn i fod yn uchelgeisiol, ac rwy'n croesawu unrhyw syniadau sy'n herio meddwl cyfredol, sy'n arloesol, neu sy'n amlygu arfer gorau a sut y gellir ei hymestyn, fel y gallwn adeiladu system gyfiawnder sy'n gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

# Canllaw

Bwriad yr ymarfer Cais am Dystiolaeth hwn yw casglu tystiolaeth fel rhan o'r Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu. **Mae'r cais am dystiolaeth hwn ar agor am wyth wythnos, o 14 Tachwedd 2024 tan 9 Ionawr 2025.**

Croesewir barn gan bawb sydd â diddordeb yn y maes hwn. Gofynnir i ymatebwyr ystyried y materion a godwyd yn y ddogfen hon a darparu ymatebion i rai neu'r cyfan o'r cwestiynau a ofynnwyd, gan ddarparu unrhyw dystiolaeth ddogfennol neu dystiolaeth arall sydd ar gael i gefnogi eu safbwynt.

Bydd yr holl gyflwyniadau a thystiolaeth a ddarperir yn cael eu hystyried a'u defnyddio fel rhan o'r Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu i gynorthwyo'r Cadeirydd a'r Panel i ddatblygu argymhellion. Mae'r Adolygiad yn gweithio i amserlenni tynn, felly anogir ymatebwyr i gyflwyno tystiolaeth cyn gynted ag y bo modd. Bydd y Cadeirydd a'r Panel yn cyhoeddi canlyniad yr adolygiad i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a gellir cyfeirio at y dystiolaeth hon mewn adroddiad terfynol. O ystyried pa mor ddwys yw'r problemau y mae'r adolygiad yn mynd i'r afael â nhw, mae'r cais hwn yn annog tystiolaeth sy'n ymestyn syniadau presennol, a allai fod yn uchelgeisiol, arloesol neu newydd.

Ni pharatowyd yr Asesiad o Effaith ar gyfer y papur hwn, gan mai ei ddiben yw casglu tystiolaeth, yn hytrach na chyflwyno cynigion polisi at ddibenion ymgynghori.

Os na all ymatebwyr gyflwyno tystiolaeth trwy ddefnyddio'r porth ar-lein, gellir hefyd rhannu tystiolaeth gyda'r Adolygiad Annibynnol drwy e-bost SentencingReview2024-25@justice.gov.uk neu drwy lythyr at Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydu, 102 Petty France, Llundain SW1H 9AJ.

## Cylch Gorchwyl

Yn ystod haf 2024, golygodd y pwysau a oedd ar gapasiti'r system garchardai ei bod yn agos iawn o fod ar ei gliniau. Yn dilyn eu hethol, gorfodwyd y llywodraeth newydd i gyhoeddi mesurau brys a oedd yn lleihau tymor carchar rhai dedfrydau penodol safonol o 50% i 40% o'r ddedfryd.

Mae'r adolygiad hwn o'r broses ddedfrydu wedi cael y dasg o ailwerthuso ein fframwaith dedfrydu mewn modd cynhwysfawr. Ei nod yw sicrhau nad ydym byth eto mewn sefyllfa lle mae gan y wlad fwy o garcharorion na lleoedd carchar, a bod y llywodraeth yn cael ei gorfodi i ddibynnu ar ryddhau carcharorion mewn argyfwng.

I wneud hynny, bydd yr adolygiad yn cael ei arwain gan 3 egwyddor:

- yn gyntaf, mae'n rhaid i ddedfrydau gosbi troseddwyr a diogelu'r cyhoedd - rhaid bod lle bob amser yn y carchar i'r troseddwyr mwyaf peryglus
- yn ail, mae'n rhaid i ddedfrydau annog troseddwyr i droi eu cefnau ar droseddu, gan leihau troseddu drwy leihau aildroseddu
- yn drydydd, mae'n rhaid i ni ehangu a gwneud mwy o ddefnydd o gosb y tu allan i'r carchar

Wrth ddatblygu eu hargymhellion, anogir y Cadeirydd a'r panel annibynnol i dynnu nid yn unig ar ddata cenedlaethol ond hefyd ar gymariaethau rhyngwladol. Rhaid i'r fframwaith dedfrydu hwn ddilyn y dystiolaeth sydd ar gael ar yr hyn sy'n lleihau troseddu.

Mae dedfrydu yn fater i'r farnwriaeth annibynnol ac felly ni fydd yr adolygiad yn ystyried dedfrydu mewn achosion unigol na rôl y farnwriaeth.

Bydd yr adolygiad yn darparu atebion hirdymor i'n system gyfiawnder drwy:

- archwilio'r defnydd a'r cyfansoddiad o ddedfrydau digarchar, gan gynnwys dewisiadau cymunedol cadarn yn lle dedfryd o garchar yn ogystal â defnyddio dirwyon
- edrych ar rôl cymhellion wrth reoli dedfrydau a phwerau'r gwasanaeth prawf wrth weinyddu dedfrydau yn y gymuned
- edrych ar y defnydd o ddedfrydau byr o garchar a'u heffaith
- adolygu'r fframwaith o amgylch dedfrydau hirach o garchar, gan gynnwys defnyddio cyfnod byrraf y caiff y troseddwr ei dreulio yn y carchar, a'r ystod o ddedfrydau a'r cosbau uchaf sydd ar gael ar gyfer troseddau gwahanol
- edrych ar y broses o weinyddu dedfrydau, gan gynnwys y pwynt y caiff troseddwyr eu rhyddhau o'r carchar, pa mor hir y cânt eu goruchwylio yn y gymuned ar drwydded, galw yn ôl i'r carchar, a sut y gall technoleg gefnogi hyn
- ystyried p'un a ddylid diwygio'r fframwaith dedfrydu i ystyried anghenion penodol neu wendidau carfannau penodol, megis troseddwyr sy'n oedolion ifanc, troseddwyr hŷn, a menywod

- ystyried y dull o ddedfrydu mewn achosion o droseddwyr cyson
- ystyried yn benodol dedfrydu am droseddau a gyflawnwyd yn bennaf yn erbyn menywod a merched

Mae rhai meysydd pwysig yr ydym yn eu hystyried y byddai’n well eu trafod y tu allan i'r adolygiad. Ni fydd yr adolygiad yn ystyried:

- Dedfryd o Garchar er mwyn Diogelu'r Cyhoedd (IPP) neu ei roi ar waith.
- y defnydd o remand.
- fframwaith dedfrydu’r llys ieuenctid.
- diwygio'r fframwaith dedfrydu llofruddiaeth yn llwyr: Er gall yr adolygiad ystyried effaith dedfrydu am lofruddiaeth ar y fframwaith dedfrydu ehangach, mae’r adran yn ystyried diwygio cyfraith lladdiad a dedfrydu yn gwbl ar wahân.
- datrysiadau y tu allan i’r llys.

Dylai'r adolygiad gyflwyno'i ganfyddiadau'n llawn i'r Arglwydd Ganghellor erbyn gwanwyn 2025.

# Themâu

## Thema 1: Hanes a thueddiadau dedfrydu

Cefndir:

- Mae yna bum diben statudol i ddedfrydu: cosbi troseddwyr, lleihau troseddu (gan gynnwys ei leihau drwy ataliaeth), diwygio ac adsefydlu troseddwyr, diogelu'r cyhoedd, a gwneud iawn gan droseddwyr i unigolion y mae eu troseddau wedi effeithio arnynt.
- Bu newidiadau deddfwriaethol sylweddol i ddedfrydu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft cyflwyno Atodlen 21 i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ar gyfer dedfrydu achosion o lofruddiaeth, cynnydd yn y cosbau mwyaf, ac ehangu dedfrydau gorfodol. Bu cynnydd hefyd yn yr amser cyfartalog a dreulir yn y ddalfa o 12.7 mis yn 2003 i 20.9 mis yn 2023.
- Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio i ba raddau y mae'r newidiadau hyn wedi cyflawni dibenion statudol dedfrydu a beth fu'r effeithiau, gan gynnwys ar lefelau troseddu a'r farn ar ddedfrydu gan y rhai hynny yr effeithir arnynt gan drosedd.
- Bydd yr adolygiad hefyd yn archwilio sut mae'r newidiadau hyn wedi cyfrannu at dwf poblogaeth carchardai a llwythi achos uchel y gwasanaeth prawf.
- Bydd yn edrych i ddysgu gan wledydd sydd wedi gwrthdroi tueddiadau chwyddiant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r Iseldiroedd wedi gweld poblogaeth ei charchardai yn gostwng yn raddol dros 40% rhwng 2006 a 2023, o un o'r cyfraddau carcharu uchaf yng Ngorllewin Ewrop.

***Beth fu'r ffactorau allweddol o ran y newidiadau mewn dedfrydu, a sut mae'r newidiadau hyn wedi bodloni dibenion statudol dedfrydu?***

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried:

- Ffactorau allweddol y tu ôl i gynnydd mewn hyd dedfrydau, gan gynnwys ffactorau allanol neu bwysau.
- Effaith newidiadau deddfwriaethol penodol ar hyd dedfrydau, megis effaith cyflwyno atodlen 21 ar ddedfrydu'n ehangach, cynnydd mewn uchafswm cosbau, ac ehangu dedfrydau gorfodol.
- Y mathau penodol o droseddau neu fathau o ddedfryd sydd wedi profi chwyddiant mawr neu gyflym, a pham mae hyn wedi digwydd.
- I ba raddau y mae'r arferiad dedfrydu presennol yn bodloni dibenion statudol dedfrydu.
- Effaith newid arferion dedfrydu, gan gynnwys ar lefelau troseddu ac aildroseddu.
- Awdurdodaethau rhyngwladol sydd wedi profi tueddiadau tebyg, yn ogystal â'r rhai sydd wedi profi i'r gwrthwyneb, a'r hyn y gallwn ei ddysgu ganddynt.

## Thema 2: Strwythurau

Cefndir:

- Y Senedd sy’n gosod y fframwaith dedfrydu, gan gynnwys uchafswm, ac mewn rhai achosion lleiafswm dedfrydau, ac yn deddfu ar agweddau o gyflwyno dedfryd.
- Mae'r Cyngor Dedfrydu yn darparu canllawiau ar gymhwyso'r gyfraith i hyrwyddo tryloywder a chysondeb.
- Mae'r farnwriaeth yn cymhwyso'r gyfraith yn annibynnol ac yn pasio dedfryd sy'n ystyried manylion pob achos unigol. Mae gostyngiad ar gael am bledio’n euog yn gynnar.
- Gall y Twrnai Cyffredinol gyfeirio dedfrydau a basiwyd yn Llys y Goron am droseddau penodedig (pob trosedd ditiadwy a rhai troseddau penodol y gellir eu profi naill ffordd), sy'n ymddangos yn rhy drugarog, i'r Llys Apêl i'w hadolygu. Mae'n rhaid i unrhyw gyfeiriad gael ei wneud o fewn 28 diwrnod i'r ddedfryd gael ei phasio. Gall unrhyw un ofyn i'r Twrnai Cyffredinol ystyried cyfeirio dedfryd.
- Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried a fydd angen newidiadau i strwythurau ynghylch sut y cyflwynir a gweithredir deddfwriaeth newydd o ran dedfrydu i sicrhau dedfrydu cynaliadwy i'r dyfodol. Gallai hyn, er enghraifft, gynnwys prosesau a fyddai'n sicrhau bod y cyflenwad a'r galw yn y system yn gytbwys.
- Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried hierarchaeth y mathau o ddedfrydau sydd ar gael, gan gynnwys a yw ein dealltwriaeth bresennol o natur gosbol gwahanol fathau o ddedfrydau yn gywir.

***Sut y gallem ddiwygio strwythurau a phrosesau er mwyn bodloni dibenion dedfrydu yn well wrth sicrhau system gynaliadwy?***

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried:

- Rôl y Llywodraeth a'r Senedd, a sut mae ymgyrchoedd allanol yn dylanwadu ar bolisi.
- Rôl y Cyngor Dedfrydu.
- Pwrpas statudol dedfrydu.
- Yr hierarchaeth gyffredinol o opsiynau dedfrydu sydd ar gael, yn cynnwys ein dealltwriaeth o natur gosbol gwahanol fathau o ddedfrydau.
- Hyder barnwrol mewn opsiynau dedfrydu sydd ar gael.
- Sut y gall newidiadau deddfwriaethol gael effaith bwriadol ac anfwriadol ar arferion dedfrydu.
- Effaith cynllun dedfrydu rhy drugarog ar ddedfrydu.
- Enghreifftiau rhyngwladol o gyrff sy'n gyfrifol am ddedfrydu, a'r hyn y gallwn ei ddysgu o ddulliau eraill.

## Thema 3: Technoleg

Cefndir:

- Rydym eisoes yn defnyddio technoleg i gefnogi’r broses o reoli troseddwyr mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys monitro lleoliad, gorfodi cyrffyw, a monitro'r defnydd o alcohol.
- Gallai datblygiadau technolegol gynnig opsiynau newydd ac arloesol ar gyfer dedfrydu. Gallai hyn, er enghraifft, olygu ffyrdd newydd o olrhain ymddygiad troseddwyr i ddiogelu'r cyhoedd, cwtogi ar y defnydd o dechnoleg fel math o gosb, neu ddylanwadu ar ymddygiad i gefnogi adsefydlu.
- Er enghraifft, mae proses ddilysu biometreg symudol yn Arkansas (UDA) yn galluogi troseddwyr i gadarnhau eu lleoliad ac i wirio gyda swyddogion parôl/prawf ar-lein o ffôn clyfar.
- Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut y gallem sicrhau bod opsiynau dedfrydu newydd neu wahanol ar gael i farnwyr drwy ddefnyddio technoleg bresennol a thechnoleg sy'n dod i'r amlwg i drawsnewid sut rydym yn darparu cyfiawnder, adsefydlu troseddwyr, a diogelu'r cyhoedd.

***Sut y gallwn ddefnyddio technoleg i fod yn arloesol yn ein dewisiadau dedfrydu, gan gynnwys ystyried sut rydym yn gweinyddu dedfrydau a rheoli troseddwyr yn y gymuned?***

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried:

- Technoleg gyfredol i ddarparu opsiynau dedfrydu, er enghraifft drwy fonitro electronig i olrhain lleoliad, y defnydd o alcohol, ac agweddau eraill ar ymddygiad.
- Datrysiadau newydd neu dechnoleg sy'n dod i’r fei, yn cynnwys y defnydd o ddeallusrwydd artiffisial; proses ddilysu biometreg symudol; a defnyddio theori pwnio i newid ymddygiad.
- Defnyddio technoleg i reoli troseddwyr yn y gymuned, naill ai ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o’r ddalfa neu ar gyfer dedfrydau cymunedol neu ddedfrydau gohiriedig.
- Yr opsiynau dedfrydu y gall technoleg newydd neu dechnoleg bresennol eu darparu.
- Enghreifftiau rhyngwladol o sut mae technoleg yn cael ei defnyddio'n arloesol i reoli troseddwyr a thystiolaeth o’i effeithlonrwydd.

## Thema 4: Dedfrydau cymunedol

Cefndir:

- Mae dedfrydau cymunedol cyfredol yn cynnwys goruchwyliaeth prawf ochr yn ochr â  gofynion fel: cyrffyw gydag thag; gwaith di-dâl; triniaeth ar gyfer dibyniaeth neu iechyd meddwl; a rhaglenni gan gynnwys cwnsela, profi cyffuriau, neu gymorth gyda darllen, ysgrifennu a gwneud ceisiadau am swyddi Er enghraifft, dedfrydwyd o leiaf 1 miliwn o oriau o waith di-dâl yn y chwarter hyd at fis Mehefin 2024.

- Bydd yr adolygiad hwn yn uchelgeisiol wrth edrych ar sut y gallwn reoli troseddwyr yn y gymuned mewn ffordd sy'n sicrhau y gall y cyhoedd fod yn hyderus bod dedfrydau cymunedol yn gadarn, gan gyfuno cosb effeithiol ag adsefydlu er mwyn atal troseddu pellach. Gallai hyn gynnwys dull gwahanol o ymdrin â gofynion neu orchmynion ategol.
- Rydym hefyd yn cydnabod y pwysau sylweddol ar y gwasanaeth prawf, a fydd yn cynyddu drwy ddefnydd pellach o ddewisiadau cymunedol yn hytrach na'r ddalfa. Felly, rydym yn ceisio tystiolaeth ar bwerau'r gwasanaeth prawf i reoli troseddwyr, a sut y gellir targedu dedfrydau a gofynion cymunedol orau lle byddant fwyaf effeithiol.
- Mae datrysiadau y tu allan i'r llys y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn ac felly nid ydym yn ceisio tystiolaeth ar y defnydd ohonynt. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod eu pwysigrwydd yn y system gyffredinol a byddem yn croesawu barn ynghylch a ddylid gwyro mwy o droseddwyr oddi wrth y system llysoedd.

***Sut y dylem ddiwygio y defnydd o ddedfrydau cymunedol a dewisiadau amgen eraill i sicrhau cyfiawnder a gwella canlyniadau i droseddwyr, dioddefwyr a chymunedau?***

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried:

- Pwy ddylai fod yn y carchar a phwy allai gyflawni dedfrydau yn y gymuned.
- Y mathau o droseddau y dylid ymdrin â phobl y tu allan i'r system llysoedd.
- Y defnydd o ddirwyon yn hierarchaeth dedfrydau.
- Y defnydd o orchmynion ategol.
- Y defnydd o wahanol ofynion a'u heffeithiolrwydd.
- Yr adnoddau a'r pwerau sydd gan y gwasanaeth prawf.
- Goruchwyliaeth wedi'i theilwra ar gyfer carfannau penodol.
- Dulliau arloesol o gefnogi a goruchwylio, gan gynnwys defnyddio technoleg.
- Enghreifftiau rhyngwladol o ddedfrydau cymunedol.

## Thema 5: Dedfrydau o garchar

Cefndir:

- Mae dedfrydu troseddau mwy difrifol wedi dod yn fwy llym ac mae hyd y ddedfryd o garchar wedi cynyddu.
- Y Senedd sy'n gosod uchafswm (a rhai lleiafswm) dedfrydau ac mae canllawiau ar gymhwyso dedfrydau yn cael eu datblygu gan y Cyngor Dedfrydu.
- Mae'r Senedd wedi cyflwyno dedfrydau gofynnol gorfodol ar gyfer llond llaw o droseddau difrifol. Rhaid gosod y dedfrydau hyn oni bai bod amgylchiadau eithriadol, yn cynnwys: saith mlynedd o garchar am drydydd trosedd o fasnachu cyffuriau dosbarth A; tair blynedd ar gyfer trydydd byrgleriaeth ddomestig; pum mlynedd ar gyfer rhai troseddau a gyflawnwyd gyda drylliau; chwe mis am ail drosedd o feddu ar arf; a chwe mis am fygwth gydag arf.

- Mae gan farnwyr ac ynadon ddisgresiwn i ddedfrydu unigolion o fewn y fframwaith cyfreithiol hwn a gosodir dedfrydau unigol gan ystyried manylion yr achos.
- Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar y fframwaith dedfrydu ac yn ystyried a oes angen mathau sylfaenol newydd o ddedfrydau o garchar, sy'n bodloni dibenion dedfrydu'n well, sy'n fwy hyblyg o ran diwallu anghenion troseddwr ac sy'n fwy tryloyw ar y cam dedfrydu.
- Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ddefnydd arloesol o ystad y carchar agored neu gadw yn y cartref ar gyfer y troseddwyr hynny lle nad amodau carchar caeedig yw'r mwyaf priodol.

***Sut y dylid diwygio dedfrydau o garchar i sicrhau cyfiawnder a gwella canlyniadau i droseddwyr, dioddefwyr a chymunedau?***

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried:

- Y defnydd a wneir o uchafswm a lleiafswm dedfrydau a osodir gan y Senedd.
- Y defnydd a wneir o ddedfrydau byr o garchar a dedfrydau gohiriedig.
- Y dedfrydau sydd ar gael ar gyfer y troseddwyr mwyaf peryglus.
- P'un a oes angen math sylfaenol newydd o ddedfryd o garchar, er enghraifft dedfryd sy'n cynnwys cymhellion fesul cam ar gyfer adsefydlu, a phwy ddylai ei weinyddu.
- Enghreifftiau rhyngwladol o ddedfrydau o garchar.

## Thema 6: Symud dedfrydau o garchar yn eu blaenau

Cefndir:

- Bydd y mwyafrif llethol o garcharorion yn cael eu rhyddhau i'r gymuned, ac mae'r ffordd y gall carcharorion symud ymlaen trwy eu dedfryd yn amrywio.
- Ar gyfer carcharorion cymwys, gall carchardai agored ffurfio rhan o'r broses adsefydlu, ac mae rhai carcharorion yn cael eu rhyddhau ar drwydded dros dro i weithio yn y gymuned.
- Mae pwyntiau rhyddhau awtomatig ar gyfer y rhai sydd ar ddedfrydau penodol safonol yn amrywio rhwng 40% a 67% yn dibynnu ar y math o drosedd/math o ddedfryd.
- Mae Cyrffyw Cadw yn y Cartref yn caniatáu rhyddhau rhai carcharorion cymwys a gafwyd asesiad risg ar ddedfrydau penodol safonol cyn eu dyddiad rhyddhau awtomatig o dan gyrffyw wedi'i fonitro'n electronig.
- Ar ôl cael eu rhyddhau, mae carcharorion yn cael eu rheoli ar drwydded yn y gymuned gan y gwasanaeth prawf am weddill eu dedfryd. I'r rhai sydd ar ddedfrydau o lai na 2 flynedd, ceir cyfnod o oruchwyliaeth ôl-ddedfryd hefyd.
- Bydd nifer o garcharorion yn cael eu galw yn ôl i'r ddalfa os bydd eu risg yn gwaethygu ar ôl iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned.
- Bydd yr adolygiad hwn yn edrych ar ffyrdd newydd o symud troseddwyr trwy eu dedfryd o garchar a sut gallai cymhelliant chwarae rhan yn natblygiad y ddedfryd. Er enghraifft, yn Texas (UDA) gall carcharorion ennill gostyngiad yn hyd yr amser

cyn iddynt fod yn gymwys i gael eu rhyddhau o'r carchar neu gyfnod eu trwydded trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau adsefydlu.
- Mae'r adolygiad hwn hefyd yn cydnabod pwysau sylweddol ar y gwasanaeth prawf felly bydd yn casglu tystiolaeth ar effeithiolrwydd cyfnodau trwydded a goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu a sut i flaenoriaethu adnoddau'r gwasanaeth prawf.

***Sut y dylem ddiwygio'r ffordd y mae troseddwyr yn symud ymlaen trwy eu dedfrydau o garchar i sicrhau ein bod yn cyflawni cyfiawnder ac yn gwella canlyniadau i droseddwyr, dioddefwyr a chymunedau?***

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried:
- Symud ymlaen trwy'r ddedfryd o'r ddalfa i'r gymuned, gan gynnwys defnyddio amodau agored, cyrffyw cadw yn y cartref, a phwyntiau rhyddhau awtomatig.
- Rôl cymhelliant wrth symud troseddwyr ymlaen trwy eu dedfryd.
- Yr ymagwedd tuag at gyfnodau trwydded a phwrpas galw yn ôl i'r ddalfa.
- Y system ar gyfer galw troseddwyr yn ôl i'r ddalfa, gan gynnwys yr amgylchiadau lle mae hynny'n digwydd ac a oes dewisiadau amgen cadarn.
- Defnyddio cyfnodau goruchwylio a thrwyddedu ar ôl dedfrydu, a sut y gellir targedu adnoddau'r gwasanaeth prawf yn fwyaf effeithiol.
- Enghreifftiau rhyngwladol o symud dedfrydau o garchar yn eu blaenau.

## Thema 7: Anghenion unigol dioddefwyr a throseddwyr

Cefndir:
- Mae profiad unigolion o'r system gyfiawnder troseddol yn amrywio gan ddibynnu ar eu cefndiroedd a'u nodweddion, ac mae'n rhaid i ni gydnabod hyn o fewn ein system.
- Mae'r adolygiad hwn yn ceisio deall barn dioddefwyr ar ddedfrydu, a sut y gall hyn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o droseddau, gan gynnwys sut mae tryloywder mewn arferion dedfrydu (e.e. pan fydd troseddwr yn cael ei ryddhau) yn effeithio ar brofiad y dioddefwr. Mae gan yr adolygiad hwn ddiddordeb arbennig mewn dedfrydu ar gyfer troseddau sy'n cael eu cyflawni'n bennaf yn erbyn menywod a merched.
- Er mwyn lleihau aildroseddu ac i atal dioddefwyr yn y dyfodol, mae'n bwysig bod y system yn cydnabod anghenion a gwendidau carfannau troseddwyr penodol yn iawn.
- Er enghraifft, tra bo menywod yn cyfrif am 4% o'r boblogaeth carchardai a 9% o'r rhai sydd o dan oruchwyliaeth gymunedol, rydym yn gwybod bod troseddwyr sy'n fenywod yn aml gydag anghenion cymhleth, gydag o leiaf 60% o fenywod sy'n cael eu goruchwylio yn y gymuned neu yn y ddalfa yn riportio eu bod wedi profi camdriniaeth ddomestig.
- Gwyddom hefyd fod gan lawer o droseddwyr cyson anghenion cymhleth. Rhwng 2000 a 2001, roedd troseddwyr cyson yn cyfrif am oddeutu un rhan o ddeg (0.5

miliwn) o'r garfan troseddwyr gyffredinol (5.89 miliwn). Er eu bod yn cyfrif am leiafrif o'r holl droseddwyr, roedd troseddwyr cyson yn gyfrifol am bron i hanner yr adegau dedfrydu (10.5 miliwn) yn yr un cyfnod.

***Pa newidiadau, os o gwbl, sydd angen eu gwneud wrth ddedfrydu i ddiwallu anghenion unigol gwahanol ddioddefwyr a throseddwyr ac i lywio gwell canlyniadau?***

Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai y byddwch eisiau ystyried:

- Barn dioddefwyr ar ddedfrydu.
- Tryloywder wrth ddedfrydu.
- Dedfrydu am droseddau sy'n cael eu cyflawni'n bennaf yn erbyn menywod a merched.
- P'un a ddylai dedfrydu gael ei deilwra i grwpiau penodol, gan gynnwys menywod, troseddwyr hŷn, neu oedolion ifanc.
- Dedfrydu a rheoli troseddwyr cyson.
- Enghreifftiau rhyngwladol sy'n gysylltiedig â'r thema hwn.

## Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch chi'ch hun.

A ydych yn cyflwyno ymateb i'r cais am dystiolaeth hwn ar ran sefydliad neu fel unigolyn?

| |
|---|
| |

Os ydych yn cyflwyno'r cais am dystiolaeth hwn ar ran sefydliad, rhowch enw’r sefydliad/ cwmni isod.

| |
|---|
| |

# Manylion cyswllt

Defnyddiwch y porth ar-lein i ddarparu eich ymateb. Fel arall, anfonwch eich ymateb drwy e-bost neu bost erbyn 9/01/2025 i:

**Tîm Ysgrifenyddiaeth yr Adolygiad Dedfrydu**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

102 Petty France
Llundain SW1H 9AJ

**E-bost**: SentencingReview2024-25@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau ynghylch proses y cais am dystiolaeth hwn, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae copïau papur ychwanegol o'r cais am dystiolaeth hwn ar gael o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/independent-sentencing-review-2024-to-2025.

Gellir gwneud cais am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn.

## Cyhoeddi ymateb

Bydd crynodeb o ganfyddiadau'r Cais am Dystiolaeth hwn yn cael ei gyhoeddi.

## Grwpiau cynrychiadol

Gofynnir i grwpiau cynrychiadol roi crynodeb o'r unigolion a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

# Cyfrinachedd

Mae’n bosibl y bydd gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i’r cais am dystiolaeth hwn, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei dadlennu yn unol â deddfwriaethau mynediad at wybodaeth (yn bennaf, y rhain yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Diogelu Data 2018 (DPA), Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (UK GDPR) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004)).

Os ydych eisiau i ni drin yr wybodaeth a roddwch yn gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod yna God Ymarfer statudol y mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef ac sy’n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. O gofio hyn, byddai’n ddefnyddiol pe gallech egluro inni pam eich bod yn ystyried yr wybodaeth a roesoch inni fel gwybodaeth gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddadlennu'r wybodaeth byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd o dan bob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo’i hun, yn ymrwymo’r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â’r Deddf Diogelu Data, ac yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu na fydd eich data personol yn cael ei ddatgelu i drydydd partïon.

## Data personol

Mae'r canlynol yn egluro eich hawliau ac yn rhoi'r wybodaeth y mae gennych hawl iddi o dan Ddeddf Diogelu Data 2018.

Sylwch bod yr adran hon yn cyfeirio at eich data personol yn unig (eich enw, cyfeiriad e-bost ac unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio i'ch adnabod) nid cynnwys eich ymateb i'r ymgynghoriad.

*1. Hunaniaeth y rheolydd data a manylion cyswllt ein Swyddog Diogelu Data*

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) yw'r rheolydd data.

Gellir cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data yn DPO@justice.gov.uk neu drwy ysgrifennu i'r cyfeiriad canlynol:

Y Swyddog Diogelu Data
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
3rd Floor, Post Point 3.0
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain E14 4PU

*2. Pam rydym yn casglu eich data personol*

Mae eich data personol yn cael ei gasglu gan ei fod yn angenrheidiol ar gyfer tasg a gyflawnwyd er budd y cyhoedd fel rhan o'r cais am dystiolaeth hwn.

Byddwn yn casglu eich cyfeiriad IP os byddwch yn cwblhau'r cais am dystiolaeth ar-lein. Efallai y byddwn yn defnyddio hwn i sicrhau bod pob unigolyn yn cwblhau'r arolwg unwaith yn unig. Ni fyddwn yn defnyddio'r data hwn at unrhyw ddiben arall.

Mathau sensitif o ddata personol

Peidiwch â rhannu data personol categori arbennig na data troseddau. O ran 'data personol categori arbennig', rydym yn golygu'r gwybodaeth ganlynol am unigolyn:

- tras
- tarddiad ethnig
- safbwyntiau gwleidyddol
- credoau crefyddol neu athronyddol
- aelodaeth undeb llafur
- geneteg
- biometreg
- iechyd (gan gynnwys gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag anabledd)
- bywyd rhywiol; neu
- cyfeiriadedd rhywiol.

O ran 'data troseddau', rydym yn golygu gwybodaeth sy'n ymwneud ag euogfarnau troseddol unigolyn neu fesurau diogelwch cysylltiedig.

*3. Ein sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol*

Mae casglu eich data personol yn gyfreithlon o dan erthygl 6(1)(e) o Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU gan ei fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd/wrth arfer awdurdod swyddogol a freiniwyd yn y rheolydd data. Mae Adran 8(d) Deddf Diogelu Data 2018 yn datgan y bydd hyn yn cynnwys prosesu data personol sy'n angenrheidiol ar gyfer arfer swyddogaeth y Goron, Gweinidog y Goron neu un o adrannau'r llywodraeth h.y. yn yr achos hwn, ymgynghoriad.

**4. Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich data personol**

Gall yr MoJ benodi 'prosesydd data', gan weithredu ar ran yr Adran ac o dan ein cyfarwyddyd, i helpu i ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Pan fyddwn yn gwneud hynny, byddwn yn sicrhau bod prosesu eich data personol yn parhau i fod yn gwbl unol â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data.

**Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data personol, neu'r meini prawf a ddefnyddir i bennu'r cyfnod cadw.**

Bydd eich data personol yn cael ei gadw am ddwy flynedd ar ôl i'r cais am dystiolaeth hwn ddod i ben, oni bai ein bod yn nodi nad oes angen ei gadw cyn y pwynt hwnnw.

**6. Eich hawliau, e.e. mynediad, cywiro, dileu**

Y data rydym yn ei gasglu yw eich data personol, ac mae gennych lais sylweddol dros yr hyn sy'n digwydd iddo. Mae gennych yr hawl:

a. i weld pa ddata sydd gennym amdanoch chi

b. gofyn i ni roi'r gorau i ddefnyddio'ch data, ond ei gadw ar gofnod

c. gofyn i'ch data gael ei gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn

d. gwrthwynebu ein defnydd o'ch data personol mewn rhai amgylchiadau

e. cyflwyno cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth Annibynnol (ICO) os ydych yn credu nad ydym yn trin eich data yn deg neu'n unol â'r gyfraith. Gallwch gysylltu â'r ICO yn https://ico.org.uk/, neu drwy ffonio 0303 123 1113.

Cysylltwch â ni yn y cyfeiriad canlynol os ydych yn dymuno arfer yr hawliau a restrir uchod, ac eithrio'r hawl i gyflwyno cwyn gyda'r ICO: DPO@justice.gov.uk neu drwy ysgrifennu i’r cyfeiriad canlynol:

Y Swyddog Diogelu Data
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
3rd Floor, Post Point 3.0
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain E14 4PU

**7. Ni fydd eich data personol yn cael ei anfon dramor.**

**8. Ni fydd eich data personol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw benderfyniadau awtomataidd.**

**9. Bydd eich data personol yn cael ei storio mewn system TG ddiogel gan y llywodraeth**

Rydym yn defnyddio system trydydd parti, CitizenSpace, i gasglu ymatebion i'r cais am dystiolaeth. Yn y lle cyntaf, bydd eich data personol yn cael ei storio ar eu gweinydd diogel yn y DU. Bydd eich data personol yn aros ar weinydd CitizenSpace a / neu'n cael ei drosglwyddo i system TG ddiogel y llywodraeth am ddwy flynedd i'w gadw cyn iddo gael ei ddileu.

## Asesiad o Effaith

Ni pharatowyd Asesiad o Effaith ar gyfer y papur Cais am Dystiolaeth hwn gan mai'r ffocws ar y cam hwn o'r broses yw casglu tystiolaeth, yn hytrach nag ymgynghori ar gyfres o gynigion. Bydd ymatebion a dderbynnir i'r Cais am Dystiolaeth hwn yn helpu i lywio'r gwaith o gynhyrchu Asesiad o Effaith yn y dyfodol.

## Yr Iaith Gymraeg

Mae fersiwn Gymraeg o'r crynodeb gweithredol a'r set o gwestiynau sydd wedi'u cynnwys yn y Cais am Dystiolaeth hwn hefyd ar gael yn https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/independent-sentencing-review-2024-to-2025.